**Eitem ar yr agenda: 6**

## GWASANAETH TÂN AC ACHUB GOGLEDD CYMRU

## ADRODDIAD AR GYFER PANEL GWEITHREDOL YR AWDURDOD TÂN

| | |
|---|---|
| DYDDIAD: | 22ain Ebrill 2004 |
| ADRODDIAD GAN: | **Y PRIF SWYDDOG TÂN** |
| DIBEN YR ADRODDIAD: | I gytuno ar ymateb i'r ddogfen ymgynghorol "Codi Tâl gan Awdurdodau Tân ac Achub" |

### 1. GWYBODAETH

1.1 Yn y Mesur Tân ac Achub a gyhoeddwyd ar 13 Ionawr 2004, mae Cymal 19 yn galluogi'r Ysgrifennydd Gwladol i reoleiddio'r gwasanaethau y medr y gwasanaeth tân ac achub godi tâl amdanynt. Fel y lluniwyd y Mesur ar hyn o bryd bydd y pŵer i wneud gorchymyn dan Gymal 19 yn gyfrifoldeb i Gynulliad Cenedlaethol Cymru.

1.2 Tra gallwn felly ddisgwyl ymgynghoriad ar wahân gan y Cynulliad, efallai y dymunai'r Awdurdod Tân gyflwyno sylwadau i Swyddfa'r Dirprwy Brif Weinidog [ODPM] ynghylch y ddogfen ymgynghorol "Codi Tâl gan Awdurdodau Tân ac Achub". Gwahoddir ymatebion erbyn 7fed Mai 2004. Mae copi o'r ddogfen ynghlwm wrth yr adroddiad hwn.

### 2. CEFNDIR

2.1 Mae Deddf Gwasanaethau Tân 1947 wedi caniatáu i Awdurdodau Tân ddefnyddio eu hadnoddau i ymateb i ddigwyddiadau ar wahân i alwadau tân. Cyfeirir at y gweithgareddau hyn fel Gwasanaethau Arbennig. Cytunwyd ar bolisi cyfredol Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru yn ystod Cyfarfod y Panel Gweithredol a gynhaliwyd ar 18fed Medi 1996, a chytunwyd na fyddai'r Gwasanaeth yn codi tâl am ymateb i alwadau Gwasanaethau Argyfwng Arbennig sydd yn cynnwys:

- Personau sydd wedi cael eu dal yn gaeth neu mewn cyfyngder
- Damweiniau Ffordd/Damweiniau Awyr a Rheilffordd
- Digwyddiadau yn ymwneud â – cemegau, ymbelydredd neu beryglon biolegol
- Llifogydd mewn eiddo domestig neu lifogydd sy'n effeithio ar ardaloedd
- Na fydd y Gwasanaeth yn codi tâl, chwaith, am achub anifeiliaid wedi'u dal yn gaeth neu mewn cyfyngder

2. **<u>CEFNDIR</u>** *(parhad)*

2.2 Mae Cymal 19 y Mesur Tân ac Achub yn darparu y gall awdurdodau tân ac achub gael eu hawdurdodi trwy orchymyn i godi tâl ar bersonau penodol am weithrediadau penodol. Fodd bynnag, nid yw'r cymal yn caniatáu codi tâl am ddiffodd tanau, neu ddiogelu bywyd ac eiddo lle mae tân yn digwydd, ar wahân i danau ar y môr neu dan y môr. Nid yw, chwaith, yn caniatáu codi tâl am roi cymorth meddygol mewn argyfwng.

Yn amodol bod gorchymyn yn cael ei gyhoeddi i ganiatáu hynny, gallai'r awdurdod tân godi tâl am ymateb i alwadau ffug o systemau larwm tân awtomatig. Gall gorchymyn dan Gymal 19 ganiatáu codi tâl ar drydydd person [e.e. cwmnïau yswiriant] am wasanaeth a ddarperir i eraill.

2.3 Mae'n fwriad gan y llywodraeth i ail gynnwys y polisïau codi tâl sy'n bodoli ar hyn o bryd. Fodd bynnag, mae pŵer Cymal 19 yn ddigon eang i ganiatáu ar gyfer codi tâl am wasanaethau dewisol nad ydynt ar hyn o bryd yn destun codi tâl amdanynt neu am gyflawni dyletswydd statudol, ar wahân i ddiffodd tanau. Os bydd bwriad i wneud hynny, byddai'n destun ymgynghoriad pellach.

2.4 Nid oes fwriad i bennu graddfa daliadau nac i nodi'r amgylchiadau lle gellir codi tâl. Mater i'r awdurdod fydd penderfynu ar swm y tâl sy'n ddyledus, yn amodol ar y cyfyngiad na allant wneud elw. Deellir bod rhai awdurdodau wedi mynegi barn am y cyfyngiad hwn yn eu sylwadau cyffredinol ar y Mesur Tân ac Achub.

**3. <u>CASGLIAD</u>**

3.1 Mae Atodiad D y ddogfen ymgynghorol yn rhestru y categorïau arfaethedig o wasanaethau y gellir codi tâl amdanynt sydd i'w cynnwys yn y gorchymyn cyntaf a wneir dan bŵer Cymal 19. O blith y categorïau arfaethedig o wasanaethau y gellir codi tâl amdanynt nid yw'r canlynol yn destun codi tâl gan yr Awdurdod Tân ar hyn o bryd.

<u>Rheoli a Gwaredu Malurion, Gorlifoedd, neu Ollyngiadau</u>

Codir tâl am ddelio gyda gorlifoedd, neu ollyngiadau a chlirio defnyddiau yn dilyn damweiniau ar briffyrdd. Ni chodi'r tâl ar Awdurdodau Unedol am glirio defnyddiau oddi ar ffyrdd yn eu hardaloedd hwy.

<u>Darparu neu gael Gwared o Ddŵr</u>

Dim ond lle mae llifogydd mewn eiddo masnachol/diwydiannol y codir tâl.

<u>Sicrhau Mynediad i Eiddo</u>

Ni chodir tâl ar hyn o bryd.

<u>Achub o lifft</u>

Ni chodir tâl ar hyn o bryd.

3. **CASGLIAD** *(parhad)*

Achub Anifeiliaid

Ni chodir tâl ar hyn o bryd.

Symud Adeiladwaith Peryglus

Ni chodir tâl ar hyn o bryd.

Darparu Cyngor o Fath Ymgynghorol

Mae hyn yn ymwneud â darparu cyngor ar ddiogelwch rhag tân a cheir manylion amdano ym Mharagraffau 11 i 14 ar bedwaredd dudalen y ddogfen ymgynghorol. Mae'r ODPM yn gwahodd sylwadau ynghylch sut y gall Awdurdod liniaru unrhyw wrthdaro buddiannol ymddangosiadol rhwng darparu cyngor y codir tâl amdano a gweithio fel yr asiantaeth gorfodaeth ar gyfer diogelwch rhag tân.

3.2 Efallai y dymunai'r aelodau roi ystyriaeth yn yr ymateb i'r ODPM, y dylai'r gorchymyn cyntaf gynnwys y gallu i awdurdodau tân ac achub i godi tâl am ymateb i alwadau ffug o systemau larwm tân awtomatig. Clustnodwyd hwn fel mater o bwys mawr yn y Cynllun Risg, ac mae ar awdurdodau tân angen y rhyddid i godi tâl am ymateb.

3.3 Er nad oes sôn am hynny yn y ddogfen ymgynghorol, mae mater ymladd tân ar y môr yn un sy'n berthnasol i Wasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru. Dylai'r aelodau ystyried argymell y dylai'r pŵer i godi tâl am y gwasanaeth hwn hefyd gael ei gynnwys yn y Gorchymyn cyntaf wneir dan Gymal 19 o'r Mesur.

**4. ARGYMHELLION**

4.1 Bod sylwadau'r aelodau'n cael eu hystyried a fod y Prif Swyddog Tân yn ymateb i'r ddogfen ymgynghorol hon; ac

4.2 Unwaith y gwneir y gorchymyn cyntaf dan Gymal 19, bod adroddiad pellach yn cael ei gyflwyno i'r Panel Gweithredol er mwyn pennu'r amgylchiadau y mae'n dewis codi unrhyw dâl am eu darparu.